# *Golygyddol: Cysyniadu Addysg yng Nghymru trwy Ddiwygio, Hunaniaeth, Iaith a Hanes*

Yr Athro Tom Crick, yr Athro Enlli Thomas
a'r Athro Gary Beauchamp

Fel golygyddion, rydym wedi cyfeirio yn y gorffennol at ein gweledigaeth y byddai'r cylchgrawn yn cynnwys 'ymchwil leol a rhyngwladol sy'n rhoi cipolwg ar lunio polisi ac arferion addysg yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol' (Beauchamp, Crick a Thomas, 2021). Felly, yn unol â'n cysyniadaeth eang o ymchwil addysgol, mae'r erthyglau yn y gyfrol gyfredol unwaith eto yn cwmpasu amrywiaeth eang o fethodolegau, dulliau, grwpiau sampl a chwestiynau ymchwil. Fodd bynnag, maent yn amlwg yn cydlynu o amgylch ein ffocysau allweddol: yn ei hanfod, ymchwil addysgol *yng* Nghymru, *o* Gymru ac *i* Gymru (Beauchamp, Thomas a Crick, 2022). Wrth i Gymru barhau ar hyd ei thaith o ddiwygiadau sylweddol i addysg ar lefel system (OECD, 2020), sydd ar hyn o bryd wedi cael ei fframio fel "cenhadaeth ein cenedl" (Llywodraeth Cymru, 2020), mae'r ffocws newydd ar bwysigrwydd sylfaen ymchwil addysgol gref a gwydn yng Nghymru — ac ymrwymiad iddi — yn glir (Llywodraeth Cymru, 2021). Ein gobaith yw y bydd *Cylchgrawn Addysg Cymru* yn parhau i ddatblygu fel lleoliad gwerthfawr, trylwyr a dylanwadol ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yng Nghymru, ac yn wir, yn rhyngwladol.

Yn y rhifyn hwn, mae Glover *et al.* yn trafod y diwygiadau diweddar ar lefel system ym maes addysg yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar system addysg gychwynnol athrawon (AGA). Mae eu herthygl yn tynnu sylw at y newid penodol yn system addysg y genedl o fod yn system 'reolaethol' i fod yn system fwy proffesiynol seiliedig ar ymddiriedaeth. Mae'r diwygiadau i AGA yng Nghymru (gweler Furlong, 2020) yn darparu enghreifftiau o'r cynnydd llwyddiannus hwn; nodweddir y system newydd gan bartneriaethau rhwng prifysgolion ac ysgolion partner arweiniol, sydd yn gyd-gyfrifol ac yn atebol am arweinyddiaeth a rheoli rhaglenni AGA. Gan ddefnyddio'r TAR dysgu o bell hyblyg dwy flynedd gan Bartneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru fel astudiaeth achos ansoddol, mae'r

*https://doi.org/10.16922/wje.25.1.1cym*

erthygl hon yn defnyddio theori trydydd gofod i ystyried sut mae gweithio mewn partneriaeth gydweithredol wirioneddol effeithiol a theg yn cael ei gyflawni yn y system AGA newydd. Mae'r heriau a nodwyd gan yr 20 prif randdeiliaid yn ystod camau cynnar datblygu a gweithredu'r rhaglen TAR hyblyg yn cynnwys materion cyfathrebu a'r nifer fawr o ddogfennau rhaglenni, gan gynnwys effaith barhaus y pandemig COVID-19 ar addysg, ac ar brifysgolion yn arbennig (Watermeyer *et al.*, 2021). Ar y llaw arall, mae cryfderau gweledigaeth gyffredin glir, cyd-lunio deunyddiau rhaglenni a llywodraethu cydweithredol yn dangos y cynnydd cadarnhaol y mae'r rhaglen TAR newydd yn ei wneud tuag at fodoli yn y 'trydydd gofod'. Mae Glover *et al.* yn cloi gyda sylwebaeth ar sut mae diwygiadau addysgol Cymru yn dod yn eu blaen, a sut mae'r model partneriaeth newydd yn cynnig profiad dysgu pwysig i eraill ei ystyried wrth i waith partneriaeth rhwng ysgolion a phrifysgolion fagu momentwm o fewn AGA. Maent yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, llywodraethu cydweithredol, a gweledigaeth gyffredin glir wrth weithio mewn partneriaeth lwyddiannus, a sut y gall y ffactorau hyn arwain at greu'r 'trydydd gofod'. Ar y cyfan, mae'r erthygl hon yn cynnig dadansoddiad craff o'r diwygiadau addysgol cyfredol yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y system AGA. Mae'n tynnu sylw at lwyddiannau a heriau'r model partneriaeth newydd, a sut y gall gyfrannu at greu'r 'trydydd gofod'. Mae hefyd yn cynnig gwersi defnyddiol ar gyfer sefydliadau ac awdurdodaethau eraill sy'n ystyried diwygiadau addysgol a modelau partneriaeth tebyg, ac yn cyflwyno cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth ehangach ar ddiwygio addysgol ar lefel system a gweithio mewn partneriaeth.

Mae Roberts yn archwilio lluniad hunaniaeth genedlaethol o fewn y Cwricwlwm i Gymru newydd (Llywodraeth Cymru, 2023), gan ddefnyddio dadansoddiad disgwrs Foucauldaidd. Mae'r diwygiadau addysgol diweddar yng Nghymru wedi arwain at amlygiad themâu niferus o hunaniaeth a chenedl, ac mae'r papur hwn yn archwilio potensial hunaniaeth a pherthyn o fewn y cwricwlwm newydd trwy leoli a dadansoddi sut y caiff hunaniaeth dysgwyr ei goddrychu. Mae Roberts yn nodi hunaniaeth fel peth amrywiol, newidiol, gofodol a strategol, ac mae'n archwilio canlyniadau posibl y lluniadau cynhwysfawr hyn. Ar ben hynny, mae ei hastudiaeth yn canfod bod y trafodaethau ynghylch hunaniaeth genedlaethol yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn gysylltiedig â'i gilydd, ond hefyd yn dod â'r potensial gyda hwy ar gyfer gwrthdaro a gwrth-ddweud. Mae'r canfyddiadau'n datgelu llawer o gymhlethdodau ac arlliwiau yn themâu hunaniaeth a pherthyn o fewn y cwricwlwm newydd. Mae Roberts yn

nodi bod potensial i berthyn, ond hefyd i rwystrau fel dieithrio ac allgáu. Mae'r erthygl yn tynnu sylw at yr angen i fod yn ofalus wrth ystyried y syniad bod modd i bob dysgwr oresgyn y rhwystrau hyn wrth weithredu'r cwricwlwm newydd. Mae'n nodi y gall y cwricwlwm newydd ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hunaniaethau mewn perthynas â hunaniaeth genedlaethol, ond mae hefyd yn cydnabod bod profiadau dysgwyr yn amrywio ac na fydd y cwricwlwm newydd o reidrwydd yn gallu mynd i'r afael â phob rhwystr i berthyn a chynhwysiant. Mae dadansoddiad disgwrs Foucauldaidd yn cynnig fframwaith gwerthfawr ar gyfer archwilio lluniad hunaniaeth genedlaethol o fewn y cwricwlwm newydd; drwy archwilio'r ffyrdd y mae'r cwricwlwm newydd yn lluniadu ac yn siapio hunaniaeth, mae'r astudiaeth yn cynnig dirnadaeth bwysig o ganlyniadau posibl y diwygiadau addysgol datblygol yng Nghymru. Ar y cyfan, mae'r astudiaeth yn cyfrannu at drafodaethau parhaus pwysig ynghylch hunaniaeth genedlaethol a diwygio addysg yng Nghymru. Mae canfyddiadau Roberts yn awgrymu, er bod y cwricwlwm newydd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu hunaniaethau, bod rhwystrau posibl i gynhwysiant a pherthyn hefyd. Mae'r astudiaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried cymhlethdodau ac arlliwiau hunaniaeth a pherthyn o fewn diwygiadau addysgol, ac mae'n awgrymu bod angen rhagor o ymchwil dros y blynyddoedd nesaf i ddeall y materion cymhleth a rhyngblethol hyn yn fanylach.

Mae papur Lovell yn trafod un o'r prif ddatblygiadau parthed y Gymraeg yn y Cwricwlwm i Gymru newydd, sef y continwwm iaith. Er bod y term "continwwm" yn cael ei ddefnyddio'n aml gan ymchwilwyr academaidd a llunwyr polisi i ddisgrifio'r cysyniad ehangach hwn, mae gan y term sawl dehongliad penodol, nid yn unig mewn dwyieithrwydd a llenyddiaeth addysg ddwyieithog, ond hefyd ym maes polisi ac addysg Gymraeg. Mae'r papur hwn yn adolygu prif ddehongliadau'r continwwm iaith, cyn cynnig dehongliad amgen; mae Lovell yn cyfeirio at hyn fel "continwwm o gymhlethdodau", gyda'r nod o bontio'r damcaniaethol ac ymarferol trwy gysylltu cysyniad y continwwm iaith â chysyniad y continwwm dysgu, fel sy'n cael ei gydnabod yn y cwricwlwm newydd. Yn benodol, mae goblygiadau cyflwyno'r continwwm i'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael ei drafod. Mae'r papur yn dechrau trwy gydnabod cyd-destun hanesyddol y Gymraeg, sydd wedi bod yn destun symudiad a dirywiad dros amser, a sut y mae hyn wedi effeithio ar bolisi addysg iaith yng Nghymru. Roedd cyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg ym 1993 yn drobwynt arwyddocaol o ran hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg, ac ers hynny

bu'n sbardun allweddol i bolisi iaith yng Nghymru, gan efallai arwain at *Cymraeg 2050,* sef dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Llywodraeth Cymru, 2022). Daeth cysyniad y continwwm iaith i'r amlwg o ganlyniad i ymdrechion i hyrwyddo dwyieithrwydd yng Nghymru, ac mae wedi'i gydnabod fel agwedd bwysig ar bolisi addysg iaith yng Nghymru. Mae Lovell wedyn yn darparu adolygiad cynhwysfawr o brif ddehongliadau'r continwwm iaith, gan bwyso ar waith ymchwil a pholisi blaenorol. Mae'n tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd o gysyniadu'r continwwm iaith, megis continwwm o hyfedredd, continwwm o ddefnydd iaith a chontinwwm o agweddau tuag at iaith. Mae Lovell yn cydnabod bod y dehongliadau hyn wedi cyfrannu at ddealltwriaeth ddyfnach o gysyniad y continwwm iaith, ond mae'n dadlau nad ydynt wedi pontio'r damcaniaethol ac ymarferol yn ddigonol, nac wedi dal cymhlethdodau dysgu iaith yn llawn. Mae Lovell yn cynnig dehongliad amgen o'r continwwm iaith, y mae'n cyfeirio ato fel "continwwm o gymhlethdodau", gyda'r nod o gysylltu cysyniad y continwwm iaith â chysyniad y continwwm dysgu, fel sy'n cael ei gydnabod yn y cwricwlwm newydd. Mae'n dadlau bod y dehongliad hwn yn adlewyrchu realiti dysgu iaith yn well (gweler Thomas *et al.*, 2022), sy'n gymhleth ac amlochrog, ac yn cynnwys ystod o ffactorau, megis hyfedredd, defnydd ac agweddau tuag at iaith, yn ogystal â ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, a hanesyddol. Daw'r papur i ben trwy drafod goblygiadau cyflwyno'r continwwm i'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (gweler Beard, 2020 hefyd); er bod cyflwyno'r continwwm yn cynnig heriau i athrawon a dysgwyr, mae Lovell yn dadlau ei fod hefyd yn darparu cyfleoedd i hybu dwyieithrwydd a gwella deilliannau dysgu iaith. Mae'n ailadrodd pwysigrwydd dull ysgol gyfan o weithredu'r continwwm, sy'n cwmpasu'r holl randdeiliaid, gan gynnwys athrawon, dysgwyr, rhieni a'r gymuned ehangach.

Yn olaf, mae Griffiths yn archwilio sut mae lluniadau cymdeithasol o 'addysg' a 'phlentyndod' yn cael eu cynrychioli yn weledol dros amser, trwy gasgliad o ffotograffau o ddosbarthiadau ysgol mewn tref fechan yng Nghymru, yn dyddio o 1885 hyd at 2015. Gan ddefnyddio fframwaith codau a chonfensiynau cyfansoddiadol Goffman, mae hi'n archwilio sut y mae pobl, hunaniaethau a chyd-destun yn cael eu darlunio i ddangos sut mae cysyniadau o gydbwysedd defodol a diffyg cydbwysedd defodol yn llunio prosesau o greu ystyr. Mae'r erthygl hefyd yn edrych ar sut mae codau a chonfensiynau cyfansoddiadol safonol a sefydlwyd yn nyddiau cynnar y traddodiad o dynnu lluniau dosbarth mewn ysgolion yn

ailadroddus ac yn aml yn cydweddu'n gryf â mecanwaith disgyblu addysg, gyda rhywedd ac oedran yn dod i'r amlwg fel dulliau trefnu pwerus. Mae Griffiths yn dadlau bod patrymau mewn cynrychiolaeth weledol yn datgelu sut mae lluniadau o 'addysg' a 'phlentyndod' yn cael eu llunio gan newidiadau a datblygiadau mewn meddylfryd cymdeithasol-wleidyddol, yn ogystal â datblygiadau mewn technolegau ffotograffig sy'n ehangu'r repertoire o dechnegau adrodd straeon gweledol. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd ffotograffau o ddosbarthiadau ysgol wrth gofnodi a rhoi arferion a newidiadau diwylliannol ar gof a chadw, a sut mae modd defnyddio'r delweddau hyn fel ffynonellau hanesyddol ar gyfer archwilio a deall dynameg gymdeithasol a diwylliannol addysg a phlentyndod. Ar ben hynny, mae Griffiths yn tynnu sylw at sut mae codau cyfansoddiadol a chonfensiynau ffotograffau o ddosbarthiadau ysgol wedi newid dros amser, gan adlewyrchu newidiadau cymdeithasol ehangach ym maes addysg a phlentyndod. Er enghraifft, mae ffotograffau cynnar yn tueddu i fod yn ffurfiol ac yn hierarchaidd, gyda'r athro yng nghanol y cyfansoddiad, yn adlewyrchu natur awdurdodol addysg ar ddiwedd y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif. Yn ddiweddarach, daw ffotograffau'n fwy egalitaraidd a chynhwysol, gyda mwy o bwyslais ar natur unigol myfyrwyr ac amrywiaeth eu profiadau. Mae'r gwaith hwn hefyd yn nodi sut mae rhywedd ac oedran yn chwarae rolau sylweddol wrth lunio'r gynrychiolaeth weledol o addysg a phlentyndod mewn ffotograffau o ddosbarthiadau ysgol. Er enghraifft, mewn ffotograffau cynnar, roedd merched a bechgyn yn aml yn cael eu gwahanu i wahanol grwpiau gydag osgo gwahanol, gan adlewyrchu disgwyliadau a rolau rhyweddol mewn cymdeithas. Wrth i agweddau cymdeithasol tuag at gydraddoldeb rhywedd symud, dechreuodd ffotograffau gynnwys merched a bechgyn gyda'i gilydd, gyda mwy o bwyslais ar natur unigol ac amrywiaeth disgyblion. Ar y cyfan, mae'r erthygl hon yn darparu dadansoddiad cymhellol o gynrychiolaeth weledol addysg a phlentyndod mewn ffotograffau o ddosbarthiadau ysgol dros amser, gan ddefnyddio astudiaeth achos o Geinewydd yng Ngheredigion dros gyfnod o 130 o flynyddoedd, a thynnu sylw at sut mae codau a chonfensiynau cyfansoddiadol, rhywedd ac oedran yn llunio prosesau o greu ystyr. Mae Griffiths yn dadlau'n argyhoeddiadol bod ffotograffau o ddosbarthiadau ysgol yn greiriau diwylliannol pwysig sy'n rhoi cipolwg ar natur newidiol addysg a phlentyndod dros amser, a bod modd eu defnyddio fel ffynonellau hanesyddol ar gyfer archwilio a deall dynameg gymdeithasol a diwylliannol y cysyniadau hyn. Bydd yr erthygl hon o ddiddordeb i ysgolheigion addysg, astudiaethau plentyndod, diwylliant gweledol a ffotograffiaeth, yn

ogystal ag unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes a diwylliant addysg a phlentyndod (yn enwedig yng Nghymru).

Wrth gloi, fel arfer, rydym yn croesawu erthyglau ar gyfer ffrydiau academaidd ac ymarferwyr rhifynnau'r dyfodol, gan gyfranwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Cysylltwch â'r golygyddion os hoffech drafod eich gwaith, gan gyflwyno i Janeway (ein system gyflwyno ar-lein) yn Gymraeg neu Saesneg, ein proses adolygu dwbl-ddall gan gymheiriaid, neu os hoffech drafod sut i gael eich gwaith wedi'i gyhoeddi yn *Cylchgrawn Addysg Cymru*.

## Cyfeiriadau

Beard, A. (2020). Addasrwydd y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg at gynhyrchu siaradwyr yr iaith. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 22(2), 1-25. https://doi.org/10.16922/wje.22.2.1

Beauchamp, G., Crick, T. a Thomas, E. (2021). Golygyddol – Addysg fel cenhadaeth genedlaethol: rôl Cylchgrawn Addysg Cymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 23(1). https://doi.org/10.16922/wje.23.1.1

Beauchamp, G., Thomas, E. a Crick, T. (2022). Golygyddol – Ymchwil addysg *yng* Nghymru, *o* Gymru, ac *i* Gymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 24(2) https://doi.org/10.16922/wje.24.2.1

Furlong, J. (2020). Ailffurfio Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru: Adolygiad Personol o'r Llenyddiaeth. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 22(1), 38-59 https://doi. org/10.16922/wje.22.1.3

Llywodraeth Cymru (2020). Addysg yng Nghymru — Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad Hydref 2020. Gw. https://www.llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020-html (cyrchwyd 01.02.23)

Llywodraeth Cymru (2021). Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol: dogfen weledigaeth. Gw. https://www.llyw.cymru/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol-dogfen-weledigaeth-html (cyrchwyd 01.02.23)

Llywodraeth Cymru (2022). Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2022 i 2023. Gw. https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2022-i-2023-html (cyrchwyd 01.02.23)

Llywodraeth Cymru (2023). Cwricwlwm i Gymru. Gw. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru (cyrchwyd 01.02.23)

OECD (2020). Achieving the New Curriculum for Wales. Gw. http://www.oecd.org/publications/achieving-the-new-curriculum-for-wales-4b483953-en.htm

Thomas, E., Owen, C. M., Hunt, F., Young, N., Dafydd, M., Fontaine, L., Aldridge-Waddon, M., Sullivan, K., Lloyd-Williams, S. W., ap Gruffudd, G. S. a Caulfield, G. (2022). Gweithio tuag at ddiagnosis o alluoedd llythrennedd

plant dwyieithog: Rhai ystyriaethau allweddol i athrawon yng Nghymru. *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 24(2).

Watermeyer, R., Shankar, K., Crick, T., Knight, C., McGaughey, F., Hardman, J., Suri, V., Chung, R., a Phelan, D. (2021). 'Pandemia': A reckoning of UK universities' corporate response to COVID-19 and its academic fallout. *British Journal of Sociology of Education*, 42(5-6), 651-666. https://doi.org/10.1080/01425692.2021.1937058